**Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
**Countryside Council for Wales**

## DEDDF BYWYD GWYLLT A CHEFN GWLAD 1981 (FEL Y'I DIWYGIWYD)

## HYSBYSU SAFLEOEDD O DDIDDORDEB GWYDDONOL ARBENNIG O DAN ADRAN 28 (1)

**RHODDIR RHYBUDD TRWY HYN** bod Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn ystyried Fachwen Isaf a Glascoed, Meifod yn Safleoedd o Dddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA).

Lleolir Fachwen Isaf i'r gogledd-ddwyrain o bentref Pont Llogel, 4km i'r de-ddwyrain o Llyn Efyrnw, yn Awdurdod Unedol Powys. Mae'r safle hwn yn ymestyn dros arwynebedd o 6.8 hectar. Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SJ036160.

Mae Fachwen Isaf o ddiddordeb arbennig oherwydd ei ddôl fen a glaswelltir asidig yn gyfaethog mewn rhywogaethau.

Lleolir Glascoed, Meifod tua 1.5 km i'r de-orllewin o Meifod, sydd tua 9 km i'r gogledd-orllewin o Y Trallwng yn Awdurdod Unedol Powys. Mae'r safle hwn yn ymestyn dros arwynebedd o 0.97 hectar. Cyfeirnod Grid Cenedlaethol SJ036160.

Mae Glascoed, Meifod o ddiddordeb arbennig oherwydd ei fod yn cynnal clwydfan mamolaeth bwysig ar gyfer ystlym pedol lleiaf, yr ail glwydfan fwyaf o'i math yn Sir Drefaldwyn.

O dan yr hysbysiad hwn mae'n ofynnol i bob perchennog a deiliaid hysbysu'r Cyngor am rai gweithrediadau arbennig a allai amharu ar ddiddordeb arbennig y safleoedd. Gall methu â gwneud hynny fod yn gyfystyr â throsedd.

Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhoi unrhyw hawliau mynediad i SoDdGA Fachwen Isaf na SoDdGA Glascoed, Meifod.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb yn y tir wneud sylwadau ynghylch yr hysbysiadau yn ysgrifenedig at y Cyngor yn y cyfeiriad isod erbyn 21 Tachwedd 2012 ar gyfer Glascoed Meifod a 30 Tachwedd ar gyfer Fachwen Isaf.

## WILDLIFE AND COUNTRYSIDE ACT 1981 (AS AMENDED)

## NOTIFICATION OF SITES OF SPECIAL SCIENTIFIC INTEREST UNDER SECTION 28 (1)

**NOTICE IS HEREBY GIVEN** that the Countryside Council for Wales considers Fachwen Isaf and Glascoed, Meifod to be Sites of Special Scientific Interest (SSSIs).

Fachwen Isaf is situated to the north-east of the village of Pont Llogel, 4km south-east of Lake Vyrnwy in the Unitary Authority of Powys and covers an area of 6.8 hectares. National Grid Reference SJ036160.

Fachwen Isaf is of special interest for its fen-meadow and species-rich acid grassland.

Glascoed, Meifod is located approx 1.5 km south-west of Meifod, which is in turn approx 9 km north-west of Welshpool, in the Unitary Authority of Powys and covers an area of 0.97 hectares. National Grid Refence SJ 143123.

Glascoed, Meifod is of special interest because it supports a major maternity roost of the lesser horseshoe bat, the second largest such roost in Montgomeryshire.

Under this notification there is a requirement on all owners and occupiers to notify the Council of certain operations which may damage the special interest of the sites. Failure to do so may constitute an offence.

This notification does not confer any rights of access to Fachwen Isaf SSSI or Glascoed, Meifod SSSI.

Any person with an interest in the land may make representations regarding the notifications in writing to the Council at the address below by 21st November 2012 in the case of Glascoed Meifod and the 30th November for Fachwen Isaf.

---

**Gellir cael manylion llawn am yr hysbysiadau gan gynnwys mapiau, disgrifiadau o'r safle a rhestrau o weithrediadau a allai fod yn niweidiol a datganiad o farn y Cyngor am reoli'r tir oddi wrth:**

**Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Llawr Cyntaf, Tŷ Ladywell, Stryd y Parc, Y Drefnewydd, Powys SY16 1RD. Teleffon: 01686 613400.**

**Full details of the notifications including maps, site descriptions and lists of potentially damaging operations and statements on the Council's views about the management of the land can be obtained from:**

**Countryside Council for Wales, First Floor, Ladywell House, Park Street, Newtown, Powys SY16 1RD. Telephone: 01686 613400.**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**